Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Cerian Roberts
Ysgol G.G. Ynyswen
Clinic Road
Ynyswen
Treorci
RCT
CF42 6ED

02/06/2025

Annwyl Cerian Roberts

Ymweliad Interim: Mai 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Ynyswen yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, siarad ag arweinwyr, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

- Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi penodi arweinydd rhifedd i gefnogi staff i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn wedi codi proffil rhifedd ar draws yr ysgol ac wedi sicrhau bod staff yn derbyn cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol.
- Mae arweinwyr wedi ail edrych ar y ddarpariaeth mathemateg o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau ei fod yn adeiladu'n systematig ac yn gydlynus ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion i sicrhau dilyniant yn eu medrau dros gyfnod cyn eu cymhwyso yn briodol ar draws y meysydd dysgu.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae staff yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemategol mewn ystod briodol o weithgareddau dysgu diddorol. Mae'r gweithgareddau dysgu hyn yn sicrhau her bwrpasol i ddisgyblion mewn cyd-destunau diddorol yn ymwneud â themâu'r dosbarth.
- Mae athrawon y disgyblion hynaf yn darparu amrediad o gyfleoedd pwrpasol iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau ysgogol. Mae'r gweithgareddau dysgu hyn wedi eu cynllunio'n fwriadus er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio hyd eithaf eu gallu yn gynyddol gyson.
- Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi dechrau datblygu prosiectau cyffrous ar draws yr ysgol i gymhwyso medrau rhifedd y disgyblion mewn cyd-destunau cyfoethog i hybu eu hannibyniaeth a'u creadigrwydd ymhellach.

Sicrhau bod aelodau o'r corff llywodraethol yn cymryd rhan lawn mewn prosesau hunanwerthuso er mwyn cefnogi'r ysgol i adnabod yr holl gryfderau a meysydd i'w gwella

- Mae'r corff llywodraethol wedi ail-gydio yn frwdfrydig ac yn ymgymryd â'u rôl ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol yn effeithiol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson i werthuso agweddau penodol o'r ddarpariaeth ar les a chynnydd disgyblion.
- Yn dilyn eu hymweliadau, maent yn paratoi adroddiadau monitro pwrpasol sydd yn adnabod cryfderau'r ysgol ac agweddau ar gyfer gwella yn glir. Mae hyn yn ei dro yn galluogi llywodraethwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth werthfawr o arferion cyfredol yr ysgol.
- Mae'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n fwriadus at drafodaethau penodol i bennu blaenoriaethau strategol, ac mae ganddynt adnabyddiaeth briodol o'r rhesymau y tu ôl iddynt.
- Manteisia'r pennaeth yn fedrus ar arbenigeddau aelodau o'r corff i gefnogi gwaith yr ysgol yn gyson. Mae hyn yn creu llywodraethu sefydlog sy'n cefnogi arweinwyr a staff yn rhagweithiol i ysgogi gwelliant parhaus yn yr ysgol.
- Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn dwyn y pennaeth i gyfrif am les a safonau disgyblion yn bwrpasol gan ddarparu cydbwysedd synhwyrol a phriodol o gymorth a her, lle bo'n briodol.
- Yn ddiweddar, maent wedi cwestiynu priodoldeb yr her a gaiff disgyblion ar draws y meysydd dysgu a'r angen i gysoni dulliau ymateb i waith disgyblion. Mae arweinwyr a staff yn ystyried yr adborth ac yn diwygio agweddau o'r ddarpariaeth yn fwriadus.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6742287

Yn gywir

Liz Miles
Cyfarwyddwr Cynorthwyol